

GRUFFUDD HIRAETHOG (bu farw 1564), bardd ac achyddwr

Enw: Gruffudd Hiraethog
Dyddiad marw: 1564
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd ac achyddwr
Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant; Barddoniaeth
Awdur: Thomas Parry

Canodd gywyddau i uchelwyr Dinbych, Môn, Arfon, a Meirionnydd. Dywedir ei fod yn ddisgybl cerdd dafod i [Dudur Aled](#). Cafodd drwydded i glera yn y flwyddyn 1545-6 o dan law [James Vaughan](#), Hugh Lewis, a [Lewys Morgannwg](#). Y mae'r drwydded ei hun ar gael heddiw (*Reports*, i, 1021). Yr oedd yn enwog fel athro beirdd, a disgyblion iddo ef oedd rhai o feirdd amlycaf hanner olaf yr 16eg ganrif, fel [Simwnt Fychan](#), [Wiliam Ll n](#), [Wiliam Cynwal](#), [Siôn Tudur](#), a [Raff ap Robert](#), ac etifeddodd rhai o'r gw r hyn ei lyfrau pan fu farw. Yn Gruffudd Hiraethog yn anad neb y gwelir amlycaf ddiddordeb mawr beirdd y cyfnod hwnnw mewn achyddiaeth, ac erys amryw o gasgliadau mawr o achau a wnaed ganddo, fel Pen. MSS. 132-6, 139, 176. Dengys y rhain ei fod yn gwybod achau teuluoedd Cymru benbaladr. Ond arbenigrwydd pennaf Gruffudd Hiraethog yw mai arno ef o'r holl feirdd traddodiadol y gwelir amlycaf ddylanwad y Dadeni Dysg. Yr oedd ganddo flas at bethau heblaw hel achau a chanu mawl yn y dull traddodiadol. Ysgrifennodd eiriadur Cymraeg, gyda dyfyniadau o weithiau'r beirdd i egluro'r ystyron (Pen. MS. 230). Casglodd ddarhebion ([Llanstephan MS 52](#) ↗). Yn ei ragair i'r casgliad y mae'n moliannu'r iaith Gymraeg ac yn lladd ar y sawl sy'n ei bwrw heibio ac na fynnant ei choledd. Dyna'r un sêl yn union dros yr iaith a'i diwylliant ag a welir gan y Dyneiddwyr. Copiwyd y casgliad diarhebion gan [William Salesbury](#), a'i argraffu a'i gyhoeddi dan y teitl *Oll Synnwyr Pen Kembro y gyd* (ymddangosodd y llyfr yn 1546 neu 1547; nid oes sicrwydd). Yn 1552 cyfieithodd [Salesbury](#) lyfr ar retoreg i'r Gymraeg, a'i gyflwyno gyda llythyr annerch i Gruffudd Hiraethog. Yn y llythyr dywedir fod Gruffudd 'mor hiraethog am gywair yr iaith ag ydd wyt ... yn cymryd gormod baich ar dy ysgwydd unigawl, nid amgen na'th fod yn ceisio ymhel o yma ac o acw am bob hen gwrach o lyfr brycheulyd i'w ddarllen ac i chwilio drosto, er cael peth cymorth tuag at gynnal yr iaith sydd yn cychwyn ar dramgwydd.' Hefyd geilw [Salesbury](#) ef 'fy mhrif gydymaith yn y cyfryw bethau hyn.' Yn ei ragair i *Oll Synnwyr Pen* y mae [Salesbury](#) yn annog y Cymry yn daer i werthfawrogi gwaith Gruffudd Hiraethog am ei fod 'yn achub yr iaith ... rhag difancoll tragfythawl.' Yn ei ymryson â [Wiliam Cynwal](#) dywed [Edmwnd Prys](#) fod Gruffudd 'yn llawn dysg, yn well na dau,' a'i restru gyda [Wiliam Salesbury](#). Y mae'n amlwg fod y dyneiddwyr yn edrych arno fel un ohonynt hwy eu hunain. Canwyd marwnad iddo gan [Wiliam Cynwal](#), ac un arall enwog ar ffurf ymddiddan rhwng y byw a'r marw gan [Wiliam Ll n](#), ond awgrymir mewn un man mai marwnad i ddyd byw yw honno.

Awdur

Syr Thomas Parry, (1904 - 1985)

Ffynonellau

J. Gwenogvryn Evans (gol.), *Oll synnwyr pen Kembro ygyd* (Bangor 1902)

Bulletin of the Board of Celtic Studies, ii, 115; viii, 3

Darllen Pellach

Erthygl Wikipedia: [Gruffudd Hiraethog](#)

Gweithiau

Barddoniaeth gan hen awdwyr or, Ancient Welsh poetry (Middle Hill Press 1840?)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [179158348](#)

Wikidata: [Q5611977](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> ↗

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

